# TASG: NÔL I'R DYFODOL

HAIA. SUT WYT TI HEDDIW? WYT TI'N DAL I FEDDWL AM Y PETHAU DRWG SYDD YN DAL I DROI YN DY BEN? MAE'N ANODD WEITHIAU I DDOD A'R MEDDYLIAU I'R PRESENNOL, HEB SÔN AM FEDDWL AM Y DYFODOL!

OND PE BAET TI'N GALLU GWELD I'R DYFODOL, BETH FYDDET TI'N GOBEITHIO GWELD AC YN BWYSICACH SUT BYDDET TI'N GOBEITHIO BYDDET TI'N TEIMLO? WYT TI ERIOED WEDI DYCHMYGU DY FYWYD DI'N RHYDD O'R MEDDYLIAU CAS A'R HUNLLEFAU? BETH AM I NI FYND AR DAITH DDYCHMYGOL I'R DYFODOL I GEISIO DEALL YN WELL YR HYN SYDD WEDI DIGWYDD YN Y GORFFENNOL A'R PRESENNOL?

MEDDYLIA AM Y DAITH I'R DYFODOL FEL LLWYBR TROELLOG. GWNA RESTR O DY HOLL OBEITHION AR GYFER Y DYFODOL, ER ENGHRAIFFT, DIM HUNLLEFAU NEU GALLU BYW BYWYD HEB Y MEDDYLIAU CAS YN FY MHEN. RHO'R RHAIN AR BEN Y DAITH. YNA, YSTYRIA'R CWESTIYNAU HYN:

1. **BETH FYDDWN I'N EI WNEUD PE BAWN I'N GALLU GWELD I'R DYFODOL?**
2. **SUT FYDDWN I'N TEIMLO?**
3. **BETH FYDDWN I WEDI EI WNEUD I GYRRAEDD Y LLE HWN?**
4. **PWY FYDDAI YNO GYDA FI?**
5. **BETH FYDDAI'N WAHANOL I NAWR?**
6. **BETH FYDDAI'N DIGWYDD?**

ONDYW E'N BRAF GALLU MEDDWL AM Y DYFODOL YN LLE FFOCYSU AR Y GORFFENNOL A'R PRESENNOL? MAE'N LE LLAWN GOBAITH SYDD HEB EI GYFFWRDD ETO!

CER ATI I GREU TAITH AT DDYFODOL GWELL, DYFODOL HEB OFIDIAU. TRAFODA'R HYN SYDD ANGEN I TI WNEUD I GYRRAEDD Y LLINELL DERFYN. WRTH GWRS, FE FYDD YNA RWYSTRAU AR HYD Y FFORDD. BETH AM NODI'R RHAIN AR HYD Y DAITH FEL DY FOD YN BAROD AR EU CYFER PAN DDOI DI AR EU TRAWS? SUT FYDDI DI'N GOROESI'R RHWYSTRAU HYN?

MAE SAMSON YN BREUDDWYDIO AM Y DYDD LLE BYDD EI FEDDWL YN DAWELACH O'R HUNLLEFAU A'R GOFIDIAU. PAN FYDD YN RHYDD I HELPU AR Y FFERM ETO HEB GOFIO DAMWAIN EI DAD-CU AR Y TRACTOR. OES 'NA DDYDDIAU GWELL AR DDIWEDD DY DAITH DI?

**DOES DIM BRYS! COFIA DIM 'SPEEDO' AR HYD Y DAITH A CHYMRA AMSER I WEITHIO DY FFORDD O GWMPAS Y RHWYSTRAU ER MWYN AGOSÁU AT Y LLINELL DERFYN.**

